Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dŷ Coryton

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Thŷ Coryton

Mae Tŷ Coryton yn darparu gwasanaeth dydd a phreswyl integredig ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng wyth ac un deg naw oed sydd wedi cael diagnosis fod ganddynt anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA).

Mae 21 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.  Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (AIG).  Mae bron pob un o'r disgyblion wedi cael eu lleoli gan awdurdodau yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli mewn plasty mawr ar gyrion Caerdydd.  Mae un deg un o ddisgyblion yn byw yng nghartref plant Tŷ Coryton sydd ag adeilad pwrpasol ar wahân ar y safle.

Mae'r pennaeth addysg dros dro wedi bod yn ei swydd er mis Mehefin 2018 ac mae'n adrodd i gyfarwyddwr addysg y sefydliad.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

Ers yr ymweliad monitro blynyddol ym mis Medi 2017, gwnaed newidiadau sylweddol i dîm arweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r pennaeth dros dro a benodwyd yn ddiweddar, a chyfarwyddwr addysg y sefydliad, yn darparu arweinyddiaeth gref ar gyfer yr ysgol. Gwyddant yn dda am gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol, ac yn sicrhau bod gweithgareddau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella deilliannau disgyblion.

Gyda'i gilydd, mae'r pennaeth a'r cyfarwyddwr addysg wedi gosod gweledigaeth strategol newydd i'r ysgol. Mae cwricwlwm newydd, sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddarparu llwybrau dysgu sy'n helpu disgyblion i ddatblygu'r wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i drosglwyddo'n llwyddiannus i fod yn oedolion, yn sail i'r weledigaeth hon.

Mae arweinwyr wedi cynnwys y tîm staff cyfan wrth adolygu'r cwricwlwm a rhoi newid ar waith. O ganlyniad, mae staff wedi ymrwymo i'r weledigaeth newydd, maent yn deall diben y cwricwlwm yn dda ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u gwaith. Mae'r tîm staff yn gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran cyflawni'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf o ran datblygu eu medrau cyfathrebu.

### *Meysydd i'w datblygu*

Mae staff yn cymhwyso polisi a gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer monitro iechyd a diogelwch yr adeiladau yn anghyson. Nid yw staff yn rhoi digon o flaenoriaeth i adrodd am ddifrod i osodiadau a ffitiadau fel drysau tân.

Mae arweinwyr yn dechrau rhoi trefniadau asesu newydd ar waith i gefnogi'r cwricwlwm diwygiedig. Fodd bynnag, nid yw'r targedau y mae athrawon yn eu gosod ar gyfer disgyblion yn adlewyrchu'n llawn y medrau a ymgorfforir yn y cwricwlwm.

### Argymhellion

Dylai'r ysgol:

A1 Sicrhau bod staff yn cymhwyso polisi a gweithdrefnau'r ysgol yn drylwyr ar gyfer iechyd a diogelwch ar y safle

A2 Alinio targedau ar gyfer disgyblion gyda'r medrau a ddatblygwyd yn y cwricwlwm newydd

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

### Argymhelliad 1: Gwneud yn siŵr fod diben clir i'r holl weithgareddau a'u bod yn ennyn diddordeb pob un o'r disgyblion

Cyflwynodd yr ysgol gynllun cwricwlwm newydd ym mis Medi 2018. Mae'r cwricwlwm newydd hwn yn cyflwyno llwybrau dysgu unigoledig ar gyfer disgyblion, a ymgorfforir o fewn dull thematig.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi gyda nodau ac amcanion clir. Maent yn dewis gweithgareddau dysgu sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghenion a diddordebau penodedig disgyblion unigol. Mae staff yn deall gwerth pob gweithgaredd dysgu ac yn gwybod sut mae'r gweithgaredd yn helpu disgyblion i gyflawni deilliannau dysgu cytûn. Mae cynllunio athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion hŷn ddewis rhwng gweithgareddau. Mae'r elfen hon o ddewis a'r ffocws ar ddatblygu medrau perthnasol yn helpu disgyblion i weithio'n ddiwyd a dyfalbarhau â gweithgareddau.

### Argymhellion 2: Sicrhau bod gweithgareddau'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys ffocws cryf ar ddatblygu annibyniaeth disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n helpu disgyblion i wneud dewisiadau a chwblhau gwaith yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer medrau yn y dosbarth y gallant eu defnyddio wedyn wrth ymweld â siopau a mannau o ddiddordeb yn y gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion yn dysgu am fwyta ac yfed yn iach yn y dosbarth, sy'n helpu iddynt wneud dewisiadau iach wrth ymweld â'r siopau lleol neu oddi ar y troli byrbrydau amser egwyl.

Mewn gwersi, mae athrawon yn rhoi amser i ddisgyblion brosesu ceisiadau ac ateb cwestiynau yn unol â'u galluoedd unigol. Mae athrawon yn rhoi dewis o weithgareddau dysgu i'w cwblhau trwy gydol y dydd i ddisgyblion hŷn yn arbennig. Mae hyn yn eu helpu i gymryd mwy o gyfrifoldeb am beth maent yn ei ddysgu, a sut.

### Argymhelliad 3: Monitro'r cwricwlwm newydd wrth iddo ddatblygu a chynorthwyo staff i'w roi ar waith

Mae aelodau o'r tîm arweinyddiaeth yn darparu lefel uchel o gymorth i staff i'w helpu i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd defnyddiol i staff drafod nodau a diben y cwricwlwm, sy'n helpu iddynt fod yn fentrus a datblygu gweithgareddau dysgu newydd. Mae staff yn deall nodau'r cwricwlwm newydd yn dda ac maent yn frwdfrydig ynglŷn â chynllunio gweithgareddau sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu medrau bywyd pwysig.

Mae staff ar draws yr ysgol yn ymgymryd yn dda â chyfleoedd dysgu proffesiynol, gan gynnwys cyfnewid syniadau â staff o ysgolion eraill a berchnogir gan y perchennog. Maent yn rhannu syniadau â'i gilydd mewn cyfarfodydd staff cynhyrchiol ac yn darparu cymorth cryf i ddisgyblion sy'n trosglwyddo rhwng dosbarthiadau a chyfnodau allweddol.

Mae arweinwyr wedi cytuno ar galendr o adegau asesu rheolaidd trwy gydol y flwyddyn, ac maent wedi dechrau monitro effaith y cwricwlwm newydd ar ddeilliannau disgyblion.  Maent yn casglu tystiolaeth o ystod ddefnyddiol o weithgareddau fel arsylwadau gwersi a chraffu ar waith disgyblion ac yn rhannu eu canfyddiadau yn briodol â'r tîm staff ehangach.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### *Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd am gydymffurfiad â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/12/2018